**Rhif: 5**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C25/0947/25/EIA** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **29/12/2025** |
| **Math y Cais:** | **Asesiad Effaith Amgylcheddol** |
| **Cymuned:** | **Pentir** |
| **Ward:** | **Y Faenol** |
| **Bwriad:** | **Amnewid ceblau tanddaearol presennol a gosod ceblau tanddaearol traws-safle newydd yn is-orsaf presennol Pentir yn ogystal a gwaith cysylltiol.** |
| **Lleoliad:** | **Is-orsaf Pentir, Bangor, LL57 4ED** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae'r cais hwn ar gyfer amnewid ceblau tanddaearol presennol a gosod ceblau tanddaearol traws-safle newydd i is-orsaf bresennol Pentir yn ogystal â gwaith cysylltiol.

1.2 Mae'r bwriad yma yn rhan o brosiect ehangach ar gyfer atgyfnerthu llinellau uwchben a cheblau ar y cylchedau presennol rhwng is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd yng ngogledd-orllewin Cymru. Mae'r Prosiect yn rhan o'r uwchraddiadau trawsyrru rhwydwaith ehangach sydd eu hangen i hwyluso'r gwaith o gysylltu 50 Gigawat (GW) o ynni gwynt ar y môr erbyn 2030. Mae cynyddu capasiti ar y llinell drawsyrru bresennol rhwng is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd wedi cael ei nodi fel cam y mae angen ei gymryd ar frys i ddarparu mwy o gapasiti trawsyrru. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan Ofgem (rheoleiddiwr ynni Prydain Fawr), sydd wedi nodi bod y gwaith angenrheidiol yn Fuddsoddiad Trawsyrru Strategol Carlam (ASTI).

1.3 Mae angen caniatâd cynllunio llawn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol ar gyfer y canlynol fel rhan o'r prosiect:

Bryncir - Is-orsaf newydd i'r de o bentref Bryncir a seilwaith cysylltiedig, a gwaith ategol, gan gynnwys ffordd fynediad newydd o'r A487 ac uwchraddio trac mynediad amaethyddol presennol, a cheblau 132 kV newydd o dan y ddaear sy'n cysylltu â llinell uwchben bresennol y Rhwydweithiau Trydan. Mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno o dan gyfeirnod C25/0949/36/EIA.

Ceblau Glaslyn - estyniad i Gompownd Selio Pennau Ceblau presennol Wern (CSEC) gan gynnwys mynediad parhaol newydd; Compownd Selio Pennau Ceblau a Thŷ Pen Twnnel newydd Minffordd gyda mynediad parhaol; tynnu Compownd Selio Pennau Ceblau presennol Garth; gosod ceblau 400 kV newydd yn lle ceblau 400 cilofolt (kV) a 132 kV diangen; a seilwaith cysylltiedig â gwaith ategol arall. Mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno o dan gyfeirnod C25/0947/25/EIA

Trawsfynydd - Gosod ceblau tanddaearol newydd a phennau selio ceblau, adweithydd siynt a nenbontydd a lledu rhan o'r ffordd fynediad presennol yn y compownd sydd wedi'i ffensio yn is-orsaf Trawsfynydd a gwaith ategol. Mae'r safle yma yn disgyn o fewn ardal Parc Cenedlaethol Eryri ac mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno i Awdurdod y Parc.

Bydd angen caniatâd Adran 37 o dan Ddeddf Trydan 1989 ar gyfer y canlynol (nid yw'r isod yn destun ceisiadau cynllunio):

Bryncir - Ailosod Tŵr 4ZC067 a gwifrau yn Is-orsaf arfaethedig Bryncir. Gosod cebl ffeibr optig.

Bryncir - Gosod llinell uwchben 132kV newydd (ar gyfer rhan o'r llwybr) i gysylltu llwybr DB presennol SPEN ag Is-orsaf Bryncir, a gwaredu rhan segur llwybr DB SPEN.

Trawsfynydd - Diwygio gwifrau presennol Tŵr 4ZC005, creu nenbont newydd yn yr is-orsaf, a gwneud newidiadau i aliniad ffens ffin de-orllewinol caeadle'r is-orsaf. (Mae'r safle yma yn disgyn o dan ardal Parc Cenedlaethol Eryri).

1.4 Mae'r cais gerbron ar gyfer gwaith o fewn compownd presennol is-orsaf Pentir a byddai'n cynnwys tynnu ceblau o dan y ddaear a gosod ceblau newydd o dan y ddaear ar draws y safle ynghyd a gwaith cysylltiedig sy'n cynnwys gosod pennau selio ceblau newydd a strwythurau dur cysylltiedig. Bydd y Trawsnewidyddion Foltedd Cynhwysaidd presennol, sydd â strwythurau cynnal, yn cael eu symud o'r lleoliad presennol i ochr arall y gylched (i ddarparu ar gyfer y set ychwanegol o bennau selio ceblau). Yn ogystal, bydd darn o'r bar bws yn cael ei ddisodli, cyfarpar cwympo llinell uwchben yn cael ei ddisodli, switsh daearu yn cael ei osod a gwaith daearu uwchben y ddaear ac o dan y ddaear yn cael ei wneud.

1.5 Gofynnir am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer y gwaith yma, fodd bynnag, ar wahân i'r Prosiect ehangach, byddai'r gwaith arfaethedig yma yn ddatblygiad a ganiateir o dan Atodlen 2, Dosbarth G, Rhan 17 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd) (GDPO 1995), sy'n berthnasol i Gymru. Mae Dosbarth G yn berthnasol i ymgymeriadau trydan ac mae'n nodi'r gwaith a wneir gan ymgymerwyr statudol ar gyfer cynhyrchu, trawsyrru neu gyflenwi trydan at ddibenion eu hymgymeriad. Mae'r Ymgeisydd yn ymgymerwr statudol ac felly mae'n elwa o gydsyniad tybiedig a roddir gan Ddosbarth G(a). Mae datblygiad a ganiateir o dan Ddosbarth G(a) yn cynnwys "gosod neu amnewid llinell drydan i mewn, ar, dros neu o dan y tir, ac adeiladu siafftiau a thwneli a gosod neu amnewid colofnau bwydo neu wasanaethu, neu drawsnewid gorsafoedd neu siambrau newid sy'n rhesymol angenrheidiol yng nghyswllt llinell drydan.

1.6 Fodd bynnag, mae erthygl 3 (10) o GDPO 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn cadarnhau nad yw'r Gorchymyn yn caniatáu datblygiad os yw'n ddatblygiad Atodlen 2 o fewn ystyr Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017. Mae'r gwaith arfaethedig yn rhan o'r Prosiect ehangach, ac mae rhan ohono (sef ail-osod ceblau trydan foltedd uchel o dan y Glaslyn) yn ddatblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) fel y cadarnhawyd o dan gyfeirnod C24/0806/08/SC, ac felly nid yw'r gwaith sy'n rhan o'r prosiect ehangach ac yn benodol y bwriad yma yn elwa o'r hawl fel datblygiad a ganiateir o dan Ddosbarth G, Rhan 17 o Atodlen 2 GDPO 1995 (fel y'i diwygiwyd). Mae angen caniatâd cynllunio llawn ar gyfer y gwaith arfaethedig am y rheswm yma felly.

1.7 Bydd y Gwaith Arfaethedig yn cael ei gynnwys yn llwyr o fewn ôl-troed presennol Is-orsaf Pentir ac yn defnyddio'r ffordd fynediad presennol, yr ardaloedd storio, y cyfleusterau lles, ystafelloedd swyddfa, a'r maes parcio staff.

1.8 Mae safle'r gwaith arfaethedig, sydd o fewn ôl-troed yr Is-orsaf bresennol, oddi ar y B4547 gan gynnwys y ffordd fynediad i'r is-orsaf bresennol o'r briffordd gyhoeddus. Mae safle'r gwaith arfaethedig tua 4.5km i'r de-orllewin o Fangor. Mae'r gwaith arfaethedig yn cwmpasu tua 1.5 hectar (ha), gyda'r ffin linell goch yn cynnwys y ffordd fynediad presennol, ardaloedd storio, cyfleusterau lles ac unwedd swyddfa, a maes parcio staff.

1.9 Mae safle y cais yn eistedd tu allan i'r ffin datblygu fel nodir yn y CDLl. Mae'r safle hefyd yn eistedd o fewn dynodiad Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Mae safle bywyd gwyllt yn amgylchynu rhan helaeth o'r safle.

1.10 Cefnogir y cais gan y dogfennau a'r asesiadau a ganlyn

-Datganiad Cynllunio

-Datganiad Dylunio a Mynediad

-Adroddiad yr Ymgynghoriad Cyn Gwneud Cais (PAC)

-Datganiad Amgylcheddol ynghyd a nifer helaeth o atodiadau a ffigyrau sydd yn trafod yr holl faterion a godwyd yn yr Asesiad Ardrawiad Amgylcheddol

-Datganiad Budd Net i Fioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd

-Datganiad Iaith Gymraeg

1.11 Oherwydd maint y safle, diffinnir y cais hwn fel datblygiad mawr. Fel rhan o'r cais, yn unol â gofynion y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Cymru),

derbyniwyd adroddiad ymgynghori cyn gwneud cais fel rhan o'r cais (PAC). Dengys yr adroddiad fod y datblygwr wedi hysbysu'r cyhoedd ac ymgynghorai statudol am y bwriad cyn cyflwyno cais cynllunio ffurfiol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y saith ymateb ffurfiol gan ymgynghoriadau statudol a dderbyniwyd wedi cael eu hystyried.

1.12 Mae'r Datganiad Amgylcheddol fel rhan or cais Asesiad o’r Effaith Amgylcheddol (EIA) yn cynnwys nifer o ddogfennau sy'n cyd-fynd â cheisiadau am ganiatâd cynllunio a wnaed gan NGET o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Trydan 1989 i ofyn am bwerau i adeiladu, gweithredu a chynnal elfennau o'r Prosiect. Mae’r Datganiad Amgylcheddol yn darparu trosolwg o'r Prosiect, y prif ddewisiadau amgen a gafodd eu hystyried wrth ddatblygu'r Prosiect (lle bo’n briodol), gwybodaeth am yr amgylchedd presennol, ac asesiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y Prosiect. Lle bo’n briodol, mae mesurau lliniaru wedi cael eu nodi i osgoi, atal, lleihau neu wrthbwyso effeithiau amgylcheddol niweidiol arwyddocaol.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 1 - Yr iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig

PS 5 - Datblygu cynaliadwy

PS 6 - Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt

PS 7 - Technoleg adnewyddadwy

PS 19 - Gwarchod a ble’n briodol gwella’r amgylchedd naturiol

PS 20 – Diogelu a lle bo’n berthnasol wella asedau treftadaeth

ISA 1 - Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr

TRA 2 - Safonau parcio

TRA 4 - Rheoli ardrawiadau cludiant

PCYFF 1 - Ffiniau Datblygu

PCYFF 2 - Meini prawf datblygu

PCYFF 3 - Dylunio a siapio lle

PCYFF 4 – Dylunio a Thirweddu

PCYFF 5 - Rheoli carbon

ADN 3 - Technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel arall

AT 1 – Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

AT 4 - Diogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi’u dynodi a’u gosodiad

AMG 5 – Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

NCT 5 : Cynllunio a Chadwraeth Natur.

NCT 11 : Sŵn

NCT 12 : Dylunio.

NCT 18 : Trafnidiaeth.

NCT 20 : Cynllunio a’r Iaith Gymraeg.

NCT 24 : Yr Amgylchedd Hanesyddol

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Cyfeirnod y cais / apêl. Cyfeiriad y cais. Disgrifiad o’r bwriad. Penderfyniad a dyddiad.

C26/0082/25/RA Cais i ryddhau amod 10 o ganiatâd cynllunio gwreiddiol C24/0532/25/LL i gyflwyno adroddiad archeolegol o’r safle cyn i waith ddechrau - heb ei benderfynu

C26/0084/18/RA Cais i ryddhau amod 8 o ganiatâd cynllunio gwreiddiol C25/0554/18/LL i gyflwyno cynllun ysgrifenedig ar gyfer gwaith archeolegol cyn i unrhyw ddatblygiad ddigwydd. - Heb ei benderfynu

C25/0554/18/LL - Gosod cebl trydan tanddaearol mewn perthynas â chynllun cyfleuster storio ynni BESS Pentir (cyfeirnod yr ACLl: C24/0532/25/LL) Caniatawyd gydag amodau 26-11-2025

C25/0266/18/LL - Caniatâd cynllunio dros dro am gyfnod o 40 mlynedd i godi System Storio Ynni (ESS), ynghyd â seilwaith cysylltiedig, mynediad i’r safle, tirlunio a gwaith atodol ar dir yn Nhyddyn Forgan, Llanddeiniolen, Caernarfon, LL55 3AN. - Caniatawyd gydag amodau - 28-11-2025

C24/0532/25/LL - C*yfleuster Storio Ynni Arfaethedig, mynediad cysylltiedig, tirweddu, seilwaith, offer ategol, gyda chynhwysedd mewnforio ac allforio cysylltiad grid o 57MWac. Caniatawyd gydag amodau 09-09-2024*

C13/1139/18/YA YMHOLIAD O FLAEN LLAW AR GYFER CREU TRAC NEWYDD – Caniatawyd – 19-12-2013

C16/0886/15/LL Cais ar gyfer gosod llinell gyswllt grid 132KV tanddaearol rhwng safle storio pwmp Glyn Rhonwy ac Is-orsaf Pentir - Caniatawyd gydag amodau 29-07-2016

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Uned Drafnidiaeth: | Heb eu derbyn |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Sylwer, at ddibenion y cais hwn, dim ond o fewn ffin y llinell goch yr ydym wedi ystyried y datblygiad arfaethedig. |

Mae gennym bryderon am y cais fel y'i cyflwynwyd. Fodd bynnag, rydym yn fodlon y gellir goresgyn y pryderon hyn os caiff y ddogfen a nodir isod ei chynnwys yn yr amod ynghylch cynlluniau a dogfennau a gymeradwywyd ar yr hysbysiad penderfyniad:

Dogfen - Cynllun Rheoli Amgylcheddol Amlinellol Adeiladu, Grid Cenedlaethol, Tachwedd 2025

Sylwer, heb gynnwys y ddogfen hon, byddem yn gwrthwynebu'r cais cynllunio hwn. Ceir rhagor o fanylion isod.

**Rheolaeth Amgylcheddol**

Mae cwrs dŵr yn llifo trwy'r safle yn agos at y trac mynediad a'r is-orsaf arfaethedig. Oherwydd agosrwydd y cwrs dŵr, sy'n llifo i mewn i Afon Cegin, mae angen lleihau'r risg o lygredd a allai ddigwydd wrth adeiladu'r datblygiad arfaethedig. Os na chaiff ei reoli'n iawn, efallai y bydd risg uchel o lygru dyfroedd a reolir.

Rydym yn nodi bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Amlinellol Adeiladu, Grid Cenedlaethol wedi cael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2025 o fewn Atodiad 2.2.A o'r Datganiad Amgylcheddol. Mae'r mesurau lliniaru a gynigir yn y Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (CEMP) a'r dogfennau ategol yn gynhwysfawr ac yn briodol i ddiogelu'r amgylchedd, ar yr amod eu bod yn cael eu gweithredu'n drylwyr a'u monitro'n effeithiol.

Felly, rydym yn cynghori bod eich Awdurdod yn cynnwys y ddogfen ganlynol yn yr amod cynlluniau a'r dogfennau wedi eu cymeradwyo ar yr hysbysiad penderfyniad: • Cynllun Rheoli Amgylcheddol Amlinellol Adeiladu, Grid Cenedlaethol, Tachwedd 2025

**Diogelu Dŵr Daear**

Rydym yn nodi bod Model Safle Cysyniadol ac Asesiad Risg, Grid Cenedlaethol, o fewn Atodiad 2.7.A o'r Datganiad Amgylcheddol. Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach yn hyn o beth.

**Rhywogaethau a Warchodir**

Nid oes unrhyw wybodaeth ecolegol (ac eithrio adroddiad Ecoleg Dyfrol) wedi'i chynnwys ar gyfer o fewn ffin y llinell goch i gefnogi'r cais hwn. Argymhellwn eich bod yn gofyn am gyngor gan ymgynghorydd ecolegol mewnol yr Awdurdod Lleol ynghylch y gofyniad am gyflwyno gwybodaeth bellach i gefnogi'r cais, yr angen am arolygon pwrpasol a sgôp yr wybodaeth bellach, lle mae angen hynny.

Nodwn hefyd y gallai penboeth yr ŷd (Galeopsis segetum) fod yn bresennol yn hanesyddol yng nghyffiniau'r safle. Efallai bod y planhigyn prin hwn yn dal i fod yn bresennol yn y banc hadau yn lleol. Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu ag ecolegydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas â mesurau posibl a allai adfer poblogaeth y rhywogaeth hon.

**Coetir Hynafol**

Mae'r safle ger safle Coetir Hynafol. Cyfeiriwch at ein Cyngor i awdurdodau cynllunio sydd yn ystyried cynigion sy'n effeithio ar goetir hynafol am fwy o wybodaeth.

**Perygl Llifogydd**

Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod safle'r cais o fewn Parth Llifogydd 1, ac felly mewn perygl isel o lifogydd. Nid oes gennym unrhyw sylwadau pellach am berygl llifogydd.

Rydym yn argymell eich bod yn cysylltu â'ch cydweithwyr yn Adran Draenio'r Awdurdod Lleol am gyngor pellach mewn perthynas â'r draenio ar y safle arfaethedig. Rydym yn cynghori y dylai unrhyw gynllun draenio dŵr wyneb arfaethedig sicrhau bod dŵr ffo o'r datblygiad arfaethedig yn cael ei leihau neu na fydd yn fwy na'r cyfraddau dŵr ffo presennol. Dylid cyflwyno manylion mabwysiadu a rheoli hefyd i sicrhau bod y cynllun/systemau yn parhau i fod yn effeithiol am oes y datblygiad.

**Tirwedd Cenedlaethol**

Oherwydd y pellter a'r ymdeimlad o arwahanrwydd o Barc Cenedlaethol Eryri, ni ragwelir y bydd effaith uniongyrchol nodedig ar y Parc Cenedlaethol neu ei osodiad yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Ystyrir bod yr effeithiau amgylcheddol yn ddibwys ac nid ydynt yn arwyddocaol.

Dŵr Cymru: Sylwadau a chanllawiau i'r ymgeisydd yn eu llythyr dyddiedig 22/01/2026

Uned Gwarchod y Cyhoedd: Sŵn

Mae'r Datganiad Amgylcheddol (ES), Cyfrol 2, Pennod 11, yn asesu effeithiau sŵn a dirgryniad tebygol sy'n gysylltiedig ag adeiladu sy'n deillio o waith yn Is-orsaf Pentir. Mae'r asesiad yn cwmpasu amodau sylfaenol, derbynyddion sensitif, effeithiau a ragwelir, a mesurau lliniaru arfaethedig.

Mae'r asesiad sylfaenol wedi cynnal adolygiad bwrdd gwaith o'r safle a lefelau sŵn a ragwelwyd. Yr eiddo agosaf sy'n sensitif i sŵn yw'r Gamekeepers Cottage, Rhos Fawr, Lôn Tŷ'n Llwyn, Pentir, LL56 4QE sydd 310m i ffwrdd o'r safle datblygu. Mae'r safle yn ardal wledig, ac mae wedi'i nodi fel un sydd â chymeriad gwledig tawel, lle mae gan sŵn adeiladu effaith ganfyddiadol fwy o bosibl. Y fethodoleg ar gyfer rhagfynegiadau sŵn ar gyfer adeiladu fu'r dull ABC o fewn BS5228-1, categori A. Mae'r Gwasanaeth yn cytuno â'r categori hwn ar gyfer y lleoliad hwn.

Mae'r lefelau sŵn gwaethaf a ragwelir canlynol yn yr eiddo agosaf sy'n sensitif i sŵn wedi'u hadrodd fel torri concrid (62 dB LAeq,T), cloddio ffosydd (51 dB LAeq,T) ac adfer/cywasgu (49 dB LAeq,T).

Sŵn sylfaenol yn y dyfodol: nodwyd nad oes unrhyw ddatblygiadau newydd wedi'u cynllunio ger Pentir, er bod y ddogfen Dylunio a Mynediad yn rhestru'r datblygiad arfaethedig yn y safle ac o'i gwmpas:

- gosod cebl cysylltu grid 132 kV tanddaearol rhwng Cyfleuster Storio Glyn Rhonwy ac Is-orsaf Pentir.

- Cyfleuster Storio Ynni wedi'i ganiatáu (C24/0532/25/LL)

- Mae gosod cebl trydan tanddaearol mewn cysylltiad â chynllun storio ynni BESS Pentir wedi'i ganiatáu (C25/0554/18/LL)

-Mae caniatâd cynllunio dros dro ar gyfer codi System Storio Ynni wedi'i ganiatáu (C25/0266/18/LL).

Dylid cynnal asesiad sŵn cronnus oherwydd nifer y ceisiadau sydd wedi cael eu caniatáu yn yr ardal hon.

Mae'r Gwasanaeth angen eglurhad ar y materion canlynol cyn cefnogi'r cais

- Mae'r asesiad Adeiladu yn seiliedig ar un darn o offer yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. A all yr ymgeisydd gadarnhau a yw hyn yn wir, neu a fydd sawl gwaith yn gweithredu ar yr un pryd? Faint o gloddwyr, rholeri, torwyr concrit? Os bydd sawl offer adeiladu gwahanol/yr un fath yn gweithredu ar yr un pryd, bydd angen lefel sŵn a ragwelir ar gyfer yr holl beiriannau sy'n gweithredu.

- Cadarnhad ynghylch y sŵn a gynhyrchir o'r seiliau cebl pen selio newydd, a fydd y ceblau hyn yn cynyddu sŵn amledd isel o'r safle yn ystod y gweithrediad gan nad yw sŵn gweithredol wedi'i gynnwys yn yr asesiad?

-Pam nad yw asesiad sŵn adeiladu cronnus wedi'i gynnal? Oherwydd nifer y datblygiadau adeiladu eraill a fydd yn digwydd yn yr ardal hon a'r cyffiniau.

2.2A Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol: Tachwedd 2025

Mae'r OCEMP wedi amlinellu y bydd sŵn o beiriannau, cloddio, torri concrit, a symudiadau cerbydau. Gallai llwch godi o gloddio, pentyrrau stoc, symudiadau cerbydau a thorri deunyddiau. Byddai dirgryniad yn bennaf o offer taro, pentyrrau, torri a symudiadau cerbydau trwm. Mae'r prosiect yn ymrwymo i ddefnyddio'r Dulliau Ymarferol Gorau (BPM) yn unol â BS5228-1/-2. Bydd yn hanfodol bod monitro sŵn yn cael ei wneud drwy gydol y cyfnod adeiladu i sicrhau bod y lefelau a amlinellir yn yr adroddiad sŵn yn cael eu dilyn hefyd. Rhaid i berson cymwys wneud y monitro a'i gofnodi. Rhaid i bob cofnod fod ar gael i swyddog o'r Gwasanaeth neu'r Awdurdod Cynllunio.

Er mwyn rheoli llwch, mae'r OCEMP yn nodi y dylid cynnal monitro llwch cyn ac yn ystod y gweithgareddau adeiladu. Unwaith eto, dylid cofnodi'r fath fonitro. Bydd sgriniau/rhwystrau o amgylch gweithgareddau/pentyrrau stoc lychlyd, pentyrrau stoc wedi'u gorchuddio ac ataliad hefyd yn cael eu defnyddio i reoli lefelau llwch.

Cyn i'r gweithgareddau adeiladu ddigwydd, dylid cyflwyno a chymeradwyo'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) manwl, gan gynnwys cynlluniau rheoli sŵn, dirgryniad a llwch. Dylid cynnwys y manylion sy'n ymwneud â mesurau lliniaru sŵn, dirgryniad a llwch a amlinellir yn yr OCEMP yn y CEMP. Rhaid i'r ddogfen gynnwys gweithdrefn ymateb i gwynion a llyfr log i'w

ddarparu i swyddogion y Cyngor.

Nid yw'r gwasanaethau'n cytuno â'r oriau gwaith arfaethedig sydd o fewn y Cynllun Gweithredu Amgylcheddol ar gyfer y Gweithle (OCEMP). Y rhain yw 07:00–19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, 08:00–18:00 o ddydd Sadwrn. Dim gweithio ar ddydd Sul/gwyliau banc. Gan fod y datblygiad hwn wedi'i gynnig i orffen yn 2030, ni fyddai'r oriau hyn yn darparu digon o seibiant i drigolion cyfagos.

- Mae'r Gwasanaeth yn argymell bod yr oriau gwaith a bennir gan y Gwasanaeth yn cael eu gosod dan amodau, sef 08:00-18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, 08:00-13:00 o ddydd Sadwrn heb weithio ar ddydd Sul na gwyliau banc.

**Ansawdd Aer**

Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu Pennod 10: Ansawdd Aer ac Allyriadau'r Datganiad Amgylcheddol (ES) (ES-Vol-2-Pentir-10-Air-Quality-and-Emissions). Mae'r adran hon yn cadarnhau bod ansawdd yr aer presennol yn ardal yr astudiaeth yn dda, gyda chrynodiadau llygryddion o fewn yr Amcanion Ansawdd Aer cenedlaethol ar gyfer diogelu iechyd pobl. Nid oes unrhyw dderbynyddion preswyl o fewn 250 m o'r gwaith. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd, byddem yn argymell bod y mesurau lliniaru a amlinellir ym mharagraff 10.9 yn cael eu cyflyru a'u cynnwys yn y CEMP. Oherwydd gwaith arall yn yr ardal, mae'n hanfodol nad yw llwch yn gadael y safle a'i fod yn cael ei gynnwys.

**Tir llygredig**

Dylid cynnal astudiaeth ddesg i sicrhau nad yw tir wedi'i halogi. Os bydd halogiad annisgwyl yn cael ei ganfod yn ystod y gwaith, rhaid atal y datblygiad ar unwaith. Rhaid hysbysu’r Awdurdod Cynllunio o fewn 48 awr a chyflwyno strategaeth ymchwilio/lliniaru priodol i’w chymeradwyo. Ni chaiff gwaith ailddechrau nes derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig.

**Casgliad**

Mae angen eglurhad i’r Gwasanaeth ynghylch y materion uchod cyn y gallwn gefnogi'r cais. Os caniateir y cais cyn derbyn yr eglurhad hwn, byddai'r Gwasanaeth yn argymell y canlynol;

- Bydd gweithgareddau adeiladu clywadwy ar ffin y safle yn gyfyngedig i: 08:00–18:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener,08:00 – 13:00 o ddydd Sadwrn a dim gwaith ar ddydd Sul na Gwyliau Banc. Ni fydd gweithgareddau swnllyd, fel torri concrit, yn digwydd tan ar ôl 08:00am

-Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn dechrau nes bod Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Manwl (CEMP) wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo. Dylai'r cynllun

| | |
|---|---|
| | adeiladu ar y CEMP Amlinellol (Grid Cenedlaethol, Tachwedd 2025) a chydymffurfio ag ef, a chynnwys: Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad (yn cydymffurfio â BS5228-1 a 2) Cynllun Rheoli Llwch ac Ansawdd Aer (strategaeth monitro barhaus; egwyddorion IAQM) Rheoli traffig a chyflenwi adeiladu Gweithdrefnau ymchwilio ac adrodd ar gwynion<br><br>- Yn ystod y gwaith adeiladu, ni ddylai lefelau sŵn sy'n deillio o weithgareddau'r safle fod yn fwy na: 65 dB LAeq (1 awr) yn ystod y dydd 55 dB LAeq (1 awr) gyda'r nos/penwythnosau 45 dB LAeq (1 awr) yn ystod y nos Wedi'i fesur wrth ffasâd yr adeilad agosaf sy'n sensitif i sŵn.<br><br>- Dylai cynllun monitro sŵn fod ar waith o leiaf 7 diwrnod cyn dechrau a thrwy gydol y gwaith adeiladu.<br><br>- Dylid cynnal astudiaeth ddesg i sicrhau nad yw tir wedi'i halogi. Os bydd halogiad annisgwyl yn cael ei ganfod yn ystod y gwaith, rhaid atal y datblygiad ar unwaith. Rhaid hysbysu’r Awdurdod Cynllunio o fewn 48 awr a chyflwyno strategaeth ymchwilio/lliniaru priodol i’w chymeradwyo. Ni chaiff gwaith ailddechrau nes derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig.<br><br>Rheswm: Er mwyn diogelu amwynder derbynyddion cyfagos drwy gydol y datblygiad |
| Uned Llwybrau | Nid yw hi’n ymddangos fod unrhyw Hawliau Tramwy sydd wedi eu cofnodi bydd yn cael eu heffeithio gan y bwriad yma. |
| Uned Draenio Tir: | Nid oes gan y SAB unrhyw wrthwynebiadau i'r cais cynllunio hwn. |
| HENEB: | Diolch am yr ymgynghoriad isod ac ymddiheuriadau am fod yn hir iawn yn ymateb. Ysgrifennaf i gadarnhau fy mod wedi edrych ar y dogfennau a gyflwynwyd sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol, yn enwedig Pennod 6 o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA) a'r Asesiad Amgylchedd Hanesyddol pen desg ategol (AEA atodiad 2 6). Mae'r Asesiad Pen Desg yn drylwyr iawn ac wedi'i ysgrifennu'n dda, ac rwy'n cytuno â chasgliadau'r bennod hon a'r bennod AEA. Felly, gallaf gadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau archeolegol sylweddol i'r elfen hon o'r cynllun ac ni argymhellir unrhyw waith archeolegol pellach yma. |
| Uned Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru: | Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad dyddiedig 06/01/2026 ynglŷn â'r cais cynllunio uchod gan hysbysu bod Llywodraeth Cymru fel awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A487 yn cyfarwyddo y bydd unrhyw |

ganiatâd a roddir gan eich awdurdod yn cynnwys yr amodau canlynol:

1) Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a fydd yn bodloni Llywodraeth Cymru, sef y Sefydliad Goruchwylio ar gyfer Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN) yr A470.
2) Bydd llwythi anwahanadwy annormal (AILs) sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn cael eu cyflwyno'n llym yn unol â Chynllun Rheoli Traffig (TMP) fel y cytunir arno gyda'r awdurdod priffyrdd perthnasol. Yn hyn o beth, caiff y Cynllun Rheoli Traffig ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, sef awdurdod priffyrdd cefnffyrdd Cymru neu awdurdod priffyrdd perthnasol arall (fel y bo'n briodol) cyn i unrhyw waith ddechrau, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig. Bydd y Cynllun Rheoli Traffig yn cynnwys:

a. cynigion ar gyfer cludo AILs o'u man mynediad i rwydwaith cefnffyrdd Cymru at y safle, mewn ffordd sy'n lleihau unrhyw effaith ar ddiogelwch a llif rhydd traffig ar y cefnffyrdd

b. tystiolaeth o gynnal treial sy'n dynwared symudiad yr AILs gwaethaf ar hyd y llwybr mynediad lle bo hynny'n briodol, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Priffyrdd

c. nifer a maint yr AILs, gan gynnwys dimensiynau a phwysau wedi'u llwytho

d. nifer a chyfansoddiad confoi AIL, gan gynnwys trefniadau hebrwng disgwyliedig

e. methodoleg ar gyfer rheoli traffig cefnffyrdd pan fydd AIL yn danfon, gan gynnwys adnabod mannau pasio ac ardaloedd dal, yn ôl yr angen

f. cynlluniau wrth gefn ar gyfer confoi mewn achos o ddigwyddiadau neu argyfyngau

g. amcangyfrif o hyd ac amseroedd taith confoi ar hyd y llwybr, gan gynnwys rhyddhau ciwiau traffig a ragwelir

h. dadansoddiad llwybr sy'n modelu symudiad yr AILs gwaethaf ar bob cyfyngiad llorweddol a fertigol posibl ar hyd y llwybr mynediad lle bo hynny'n briodol, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Priffyrdd

i. cynigion ar gyfer addasu dros dro, neu addasu'n barhaol, unrhyw ddodrefn stryd yr effeithir arnynt ar hyd y llwybr mynediad a manylion sut y byddai hyn yn cael ei reoli

j. cynlluniau ar gyfer adfer unrhyw waith dros dro ar ôl cwblhau'r cam adeiladu

k. rhaid egluro perchnogaeth tir ar bob llun sy'n dangos addasiadau priffyrdd arfaethedig. Bydd y datblygwr yn gyfrifol am gaffael ac adfer tir pob trydydd parti gan gynnwys adfer nodweddion ffin

l. cynigion i gysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol ac aelodau o'r cyhoedd ynghylch traffig adeiladu a symudiadau AIL

m. ystyried effaith gronnol cynlluniau cynhyrchu llwyth annormal eraill sy'n bwriadu defnyddio'r cyfan neu ran o'r un llwybr mynediad Bydd AILs sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw a digomisiynu'r datblygiad yn gadael y safle yn hollol unol â'r Cynllun Rheoli Traffig fel y cytunir arno gyda'r awdurdod priffyrdd perthnasol. Yn hyn o beth, caiff y Cynllun Rheoli Traffig ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, sef awdurdod priffyrdd cefnffyrdd Cymru neu awdurdod priffyrdd perthnasol arall (fel y bo'n briodol) cyn i unrhyw waith tynnu, adnewyddu neu ddigomisiynu ddechrau.

3) Ni chaiff unrhyw waith datblygu ei wneud hyd nes bydd manylion llawn am unrhyw waith priffyrdd sy'n gysylltiedig ag adeiladu ardaloedd gosod, mannau pasio a gwelliannau priffyrdd fel y cytunwyd arnynt â phob awdurdod priffyrdd perthnasol gan gynnwys:

a. dyluniad manwl unrhyw waith

b. cynllun geometrig

c. dulliau adeiladu

d. draenio, a

e. goleuadau stryd

wedi cael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru, sef awdurdod priffyrdd cefnffyrdd Cymru neu awdurdod priffyrdd perthnasol arall (fel y bo'n briodol).

Bydd y gwaith priffordd yn cael ei gwblhau yn unol â'r manylion cymeradwy cyn dechrau danfon llwythi anwahanadwy annormal i'r safle datblygu.

Ni fydd unrhyw waith datblygu yn cael ei wneud nes bod y datblygwr yn dangos hawliau mynediad i'r holl waith arfaethedig nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith priffyrdd, sy'n bodloni yr awdurdod cynllunio lleol.

| | |
| --- | --- |
| Uned Bioamrywiaeth: | Heb eu derbyn |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Daw’r cyfnod hysbysebu i ben a ni dderbyniwyd llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu'r bwriad. |

**5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae’n ofynnol gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â’r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLL) yw’r ‘Cynllun Datblygu’ mabwysiedig ac yn yr achos yma.

5.2 O safbwynt polisïau cyffredinol, mae Polisi PCYFF 1 yn datgan y tu allan i ffiniau datblygu bydd cynigion yn cael eu gwrthod oni bai eu bod yn unol â pholisïau penodol y cynllun neu bolisïau cynllunio cenedlaethol neu fod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol. Yn yr achos hwn mae cyfiawnhad wedi ei roi yn y Datganiad Cynllunio ac mae’r cais hwn yn rhan o brosiect sylweddol ar draws Gogledd Cymru i uwchraddio adnoddau. Gweithredwr y System Ynni Cenedlaethol (NESO) sy’n gyfrifol am nodi sut mae angen addasu'r system trawsyrru trydan cenedlaethol i ddatrys yr heriau o gysylltu seilwaith trydan newydd, lleihau allyriadau carbon a diogelu ffynonellau ynni yn well. Mae dadansoddiad NESO yn dangos nad oes digon o gapasiti trawsyrru yn y rhwydwaith presennol yng Ngogledd Cymru i gysylltu datblygiadau cynhyrchu pŵer ychwanegol ar raddfa fawr sy’n cael eu rhagweld, yn enwedig o brosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr ym Môr Iwerddon.

5.3 Mae cynyddu capasiti ar y llinell drawsyrru bresennol rhwng is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd wedi cael ei nodi fel cam y mae angen ei gymryd ar frys i ddarparu mwy o gapasiti trawsyrru. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan Ofgem (rheoleiddiwr ynni Prydain Fawr), sydd wedi nodi bod y gwaith angenrheidiol yn Fuddsoddiad Trawsyrru Strategol Carlam (ASTI). Bu i’r ymgeiswyr felly chwilio am safle addas ar gyfer y datblygiad yn y tiroedd o amgylch yr Is-orsaf ac fe gyflwynwyd asesiad o’r broses dewis.

5.4 Mae polisi ISA 1 yn gefnogol o gynigion am wasanaethau dŵr, trydan, nwy ac ati i wella’r ddarpariaeth, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio manwl. Mae’r polisi yn nodi ei fod yn bwysig bod y ddarpariaeth isadeiledd ar gyfer safle datblygu yn cael ei lleoli a’i ddylunio mewn modd sy’n lleihau’r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Derbynnir felly, o gael safle priodol sy’n dderbyniol o safbwynt amgylcheddol, bod cyfiawnhad dros ddatblygu’r cyfleuster hwn mewn lleoliad gwledig.

5.5 Er nad ydyw’r datblygiad yn gynllun ynni adnewyddol ynddo’i hun, fe fyddai’n ffurfio rhan o’r rhwydwaith cefnogol a ellid ei ddefnyddio wrth reoli’r cyflenwad adnewyddol. I’r perwyl hynny fe ellid ei ystyried yn rhan o’r rhwydwaith ynni adnewyddadwy ac felly mae polisi ADN 3 o’r CDLl yn berthnasol. Mae hwnnw’n gosod cyfres o feini prawf ar gyfer ystyried cynigion am dechnolegau ynni adnewyddadwy ac fe asesir y cynllun hwn yng nghyd-destun y polisïau hynny isod :

**1. Bod yr holl effeithiau wedi'i lliniaru'n ddigonol**

5.6 Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru bryderon ynghylch y datblygiad ond maent yn barod i dderbyn y datblygiad yn ddarostyngedig i amodau i sicrhau bod y ddogfen 'Outline Construction Environmental Management Plan, National Grid, November 2025' yn cael ei gynnwys yn amod cynlluniau'r cais.

5.7 Wrth ystyried yr wybodaeth uchod, er gwaetha diffyg sylwadau gan yr Uned Bioamrywiaeth, fe nodir fod y bwriad wedi ei leoli yn gyfan gwbl o fewn ardal weithredol is-orsaf bresennol Pentir. Nodir fod rhannau o'r ardal y tu allan i'r is-orsaf wedi ei ddynodi yn safleoedd bywyd gwyllt. Bydd yr holl waith yn cael ei wneud o fewn ffiniau'r is-orsaf bresennol felly fydd effaith bychan iawn ar fioamrywiaeth o amgylch y safle.

5.8 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cadarnhau (paragraff 6.4.3) "O gydnabod bod gwaith datblygu yn angenrheidiol ac y bydd yn effeithio i raddau ar fioamrywiaeth, dylai'r system gynllunio sicrhau bod mantais net gyffredinol i fioamrywiaeth a chyfnerthu ecosystemau a fydd yn arwain at wella llesiant". Mae paragraff 6.4.5 o'r PCC hefyd yn cadarnhau "Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hyn yn golygu na ddylai unrhyw ddatblygiad beri colled sylweddol o ran cynefinoedd neu boblogaethau rhywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol a rhaid i'r datblygiad weithio ochr yn ochr â natur a bod o fantais net i fioamrywiaeth a gwella cynhyrchedd ecosystemau neu alluogi hynny i ddigwydd. Mantais net i fioamrywiaeth yw'r cysyniad y dylai datblygiad adael bioamrywiaeth a chynhyrchedd ecosystem mewn cyflwr sylweddol gwell nag yr oedd cynt, trwy sicrhau manteision tymor hir, mesuradwy a dangosadwy, yn bennaf ar y safle neu wrth ei ymyl".

5.9 Derbyniwyd Datganiad Seilwaith gwyrdd fel rhan o'r cais sy'n cynnwys gwelliannau bioamrywiaeth, ynghyd a nifer o adroddiadau megis adar, ystlumod, coed ac ayyb. Mae Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) Amlinellol (Cyfrol 8, Atodiad 2.2.A) yn nodi'r mesurau i liniaru effeithiau'r gwaith adeiladu ar fioamrywiaeth, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â llwch, llygredd aer, digwyddiadau llygredd, ansawdd dŵr, golau, sŵn a dirgryniad. Mae Paragraff 5.8.9 o Gyfrol 2, Pennod 5: Ecoleg a Chadwraeth Natur yn nodi'r mesurau i osgoi cynefinoedd yn ystod y gwaith adeiladu.

5.10 Mae'r gwaith arfaethedig wedi osgoi unrhyw effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau ar y safle gan gadw at ardaloedd llawr caled presennol ac wedi cynnig mesurau gwella penodol i rywogaethau i sicrhau budd net sydd yn cael eu hamlinellu yn y Datganiad Seilwaith Gwyrdd. Mae'r gwelliannau hwn yn cynnwys gosod tri blwch adar ac ystlumod. Bydd y Grid Cenedlaethol yn gyfrifol am reoli a monitro'r blychau hyn i gyflawni budd net i fioamrywiaeth. Bydd rhaglen fonitro a chynnal a chadw pum mlynedd yn cael ei weithredu, ynghyd a chynnal archwiliadau blynyddol i asesu cyflwr y blychau, presenoldeb a defnydd gan rywogaethau. Bydd canlyniadau monitro'n cael eu cofnodi a'u hadolygu'n flynyddol i lywio rheolaeth addasol.

5.11 Fe gredir felly bod y cynnig yn cydymffurfio gyda Maen Prawf 1 Polisi ADN3 o safbwynt ei effaith bioamrywiaeth, ac mae hefyd yn gweddu gydag amcanion polisïau PS 19 ac AMG 5 y CDLl ynghyd ac egwyddorion y PCC.

**2. Na fyddai’r cynnig yn niweidiol i fwynderau gweledol**

5.12 Fe gyflwynwyd Asesiad Tirwedd ac Asesu Effaith Gweledol gyda’r cais. Casgliadau'r gwaith hwnnw oedd mai lefel isel iawn o effaith weledol y cai'r datblygiad arfaethedig ar y dirwedd oherwydd bod y gwaith arfaethedig yn digwydd yn yr is-orsaf bresennol. Byddai’r effeithiau ar gymeriad y dirwedd a mwynderau gweledol yn rhai dros dro ac yn anodd eu canfod gan neu fod yn digwydd o fewn cyd-destun seilwaith presennol yr is-orsaf sydd wedi ei sgrinio gan lystyfiant presennol o’i hamgylch. O ganlyniad natur gyfyngedig a dros dro unrhyw newid posib, nid oes unrhyw effeithiau arwyddocaol negyddol sylweddol yn codi.

5.13 Yn gyffredinol, wrth dderbyn y byddai effaith bychan ar y safle ei hun, ni chredir y byddai hyn yn niweidiol i ansawdd a chymeriad y dirwedd ehangach ac ystyrir y byddai gan y dirwedd leol y capasiti i gynnwys y datblygiad arfaethedig heb effeithiau niweidiol sylweddol.

5.14 Er i’r safle gael ei leoli o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, ni fyddai yn amlwg yn y dirwedd ac ni chredir y byddai’n cael effaith niweidiol arwyddocaol ar nodweddion arwyddocaol y dirwedd. Wrth edrych ar y safle o nifer o fannau gwahanol yn yr ardal leol, derbynnir bod yr Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol a dderbyniwyd yn rhesymol ac fe gredir felly bod y cynnig yn cwrdd â’r maen prawf hwn ynghyd a pholisïau AT 1, PCYFF 2 a PCYFF 4 fel y maent yn ystyried mwynderau gweledol.

**3. Na fydd unrhyw effeithiau annerbyniol sylweddol ar ddefnyddiau sensitif cyfagos**

5.15 Mae sawl eiddo anheddol o fewn 1km o’r safle ac fe gyflwynwyd Arolwg Sŵn gyda’r cais. Mae'r adroddiad hwn yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig wedi’i gynnal o’r ardal o fewn 300 m i safle gwaith Pentir er mwyn nodi unrhyw dderbynyddion sensitif i sŵn a allai gael eu heffeithio gan y gwaith arfaethedig. Mae derbynyddion sensitif a allai gael eu heffeithio gan sŵn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, eiddo preswyl, canolfannau addysgol, mannau addoli, ysbytai a gwestai. Mae'r safle yn ardal wledig, ac mae wedi'i nodi fel un sydd â chymeriad gwledig tawel, lle mae gan sŵn adeiladu effaith ganfyddiadol fwy o bosibl. Y fethodoleg ar gyfer rhagfynegiadau sŵn ar gyfer adeiladu fu'r dull ABC o fewn BS5228-1, categori A. Mae'r Gwasanaeth Gwarchod Y Cyhoedd yn cytuno â'r categori hwn ar gyfer y lleoliad hwn. Mae'r lefelau sŵn gwaethaf a ragwelir yn yr eiddo agosaf sy'n sensitif i sŵn wedi'u hadrodd fel torri concrid (62 dB LAeq,T), cloddio ffosydd (51 dB LAeq,T) ac adfer/cywasgu (49 dB LAeq,T). Mae’r asesiad sŵn yn nodi effaith lleiaf niweidiol dros do ar y safle yn y sefyllfa waethaf. Mae gwaith lliniaru yn sgil sŵn adeiladu yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu.

5.16 Derbyniwyd sylwadau gan yr uned Gwarchod Y Cyhoedd sydd yn gofyn am asesiad sŵn cronnus oherwydd nifer y ceisiadau sydd wedi cael eu caniatáu yn yr ardal, gan ofyn am eglurhad ar faterion penodol. Er hyn, mae’r uned Gwarchod y Cyhoedd hefyd yn cynnig amodau er mwyn sicrhau fod y bwriad yn dderbyniol er gwaethaf unrhyw effaith cronnol, a fyddai, yn y pen draw yn effaith dros dro. O ganlyniad, ystyrir ei bod hi’n rhesymol yn yr achos yma osod amodau ar y caniatâd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion Gwarchod y Cyhoedd.

5.17 O osod amodau priodol er mwyn rheoli’r sŵn a gynhyrchir o’r cyfleuster credir fod y datblygiad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio efo gofynion polisi PCYFF 2 y CDLl ynghyd a’r maen prawf yma o bolisi ADN 3 fel y mae’n ymwneud ag amddiffyn mwynderau preifat.

**4. Na fyddai effaith annerbyniol ar ansawdd ddŵr**

5.18 Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio yn nodi bod safle'r cais o fewn Parth Llifogydd 1, ac felly'n peri risg isel o lifogydd. Nid oes gan Gyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylwadau pellach ynghylch risg llifogydd. Mae CNC hefyd yn fodlon gyda'r 'Conceptual Site Model and Risk Assessment' o fewn Atodiad 2.7.A o'r Datganiad Amgylcheddol. Credir felly na fydd effaith annerbyniol ar ansawdd Dwr.

**5. Dylid defnyddio adeiladau / tir a ddefnyddiwyd o'r blaen**

5.19 Caiff Safle'r Gwaith Arfaethedig ei ddiffinio fel safle tir llwyd gan ei fod yn cael ei feddiannu gan yr is-orsaf bresennol. Mae'r holl waith yn cael ei gwblhau o fewn y safle presennol felly yn defnyddio tir a ddefnyddiwyd o'r blaen.

**6. Na fyddai effaith cronnus annerbyniol ar y dirwedd**

5.20 Wrth ystyried safle eithaf cuddiedig y datblygiad arfaethedig, gyda sgrinio presennol, fe gredir i'r datblygiad hwn weddu'n dderbyniol gyda naws presennol y dirwedd yn hytrach na chreu effaith cronnus annerbyniol.

**7. Lle'n briodol, bod y cyfarpar yn cael ei dynnu o'r safle wedi diwedd oes y cynllun.**

5.21 Mae'r cyfarpar a'u gosodir ar y safle yn danddaearol yn bennaf ond fe gredir y byddai'n briodol gosod amod er sicrhau y bydd unrhyw gyfarpar yn cael ei dynnu o'r safle pan ddaw'r angen am y cyfleuster i ben.

**Crynodeb**

5.22 Wrth ystyried yr asesiad uchod fe gredir bod y cais yn cwrdd gyda'r holl feini prawf perthnasol ac felly bod y cynnig yn dderbyniol o ran egwyddor ag yn cydymffurfio gyda gofynion polisi ADN 3 y CDLL.

5.23 Yn ogystal i'r uchod mae Polisi ISA 1 y CDLl yn annog caniatáu cynigion am wasanaethau trydan er mwyn gwella'r ddarpariaeth leol. Yn yr un modd mae polisïau PCYFF 5, PS 5 , PS 6 a PS 7 yn gefnogol o gynlluniau i ddatblygu technolegau adnewyddadwy sy'n cyfrannu tuag at amddiffyn yr amgylchedd a lliniaru newid hinsawdd ac, o dderbyn bod hwn yn rhan o rwydwaith gefnogol sy'n cyfrannu tuag at system ynni "gwyrdd" effeithlon, fe gredir bod y cynllun yn cwrdd gydag amcanion y polisïau hyn.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.24 Unwaith y bydd yn weithredol, ni fydd unrhyw alw am fynediad cerbydol ychwanegol i'r safle ac ni fydd unrhyw effeithiau hirdymor ar ddiogelwch y briffordd yn deillio o'r datblygiad. Ni dderbyniwyd sylwadau gan Uned Briffyrdd y Cyngor ond mae Uned Trafnidiaeth Y Cynulliad yn fodlon gyda'r datblygiad yn ddarostyngedig i amodau maent wedi eu cynnwys yn eu sylwadau. Nodir nad oes bwriad gwneud unrhyw newidiadau i'r fynedfa. Fe gredir felly bod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisi TRA 2 a TRA 4 o'r CDLL o safbwynt diogelwch a hwylustod y briffordd.

**Materion Treftadaeth ac Archaeoleg**

5.25 Mae nifer o Henebion Rhestredig yng nghyffiniau'r safle ac Asesiad Amgylchedd Hanesyddol yn cyd-fynd â'r cais yn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar y nodweddion hynny. Mae'n cadarnhau na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar leoliadau unrhyw un o'r safleoedd dynodedig lleol. Mae'r cais felly yn dderbyniol o dan bolisïau PS 20 o'r CDLl fel mae'n ymwneud a'r effaith ar nodweddion treftadaeth.

5.26 O safbwynt archaeoleg, fe nododd Heneb (Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd) bod Pennod 6 o'r Asesiad Effaith Amgylcheddol a'r Asesiad Desg Amgylchedd Hanesyddol yn Seiliedig ar Ddesg. Mae HENEB yn nodi bod yr asesiad desg yn drylwyr iawn ac wedi'i ysgrifennu'n dda. Mae HENEB yn cytuno a chasgliadau'r ddogfen a phennod yr EIA. Yn unol a hynny, gall HENEB gadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau archeoleg arwyddocaol yn ymddangos ac nid oes unrhyw waith archeolegol pellach yn cael ei argymell yma. I'r perwyl hyn mae'r cais yn cwrdd â gofynion polisi AT 4 y CDLl fel y mae'n ymwneud ag amddiffyn safleoedd o bwysigrwydd archeolegol rhag niwed.

**Materion Ieithyddol**

5.27 Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae'n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, lle mae'n berthnasol i'r cais hwnnw. Ategir hyn ymhellach gan baragraff 3.28 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, 2024) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 20. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' (mabwysiedig Gorffennaf 2019) yn rhoi arweiniad pellach ar sut y disgwylir i ystyriaethau i'r iaith Gymraeg fod yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol.

5.28 Nodir fod yna rhai mathau penodol o ddatblygiadau ble fydd gofyn i'r bwriad fod yn cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Mae'r trothwyon o ran pryd y disgwylir cyflwyno Datganiad/Adroddiad wedi ei hamlygu ym Mholisi PS1 o'r CDLl ar y Cyd ynghyd a Diagram 5 o'r CCA. O safbwynt y mathau o ddatblygiadau dan sylw, nodir y canlynol: Nid yw'r bwriad arfaethedig penodol yma yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Serch hynny mae Atodiad 5 y CCA yn nodi y dylai pob datblygiad tai, manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol ble nad oes angen cyflwyno Datganiad/Asesiad iaith Gymraeg ddangos sut fo ystyriaeth wedi ei roi i'r iaith.

5.29 Mae'r bwriad gerbron ar gyfer gosod cebl tanddaearol yn is-orsaf pentir ynghyd a gwaith cysylltiol. Mae Datganiad Iaith Gymraeg wedi cael ei gyflwyno fel rhan or cais. Mae'r Datganiad wedi ystyried effeithiau posibl gwaith arfaethedig Pentir ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol. Roedd yr ystyriaethau allweddol wedi sgorio pob categori fel rhai cadarnhaol (tymor byr), amherthnasol neu niwtral, felly nid oeddent wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y Brif Ardal Effaith Economaidd. Er na nodwyd unrhyw effeithiau andwyol yn yr asesiad, mae'r adroddiad yn cynnig mesurau i sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei gynnal. Bydd y mesurau megis defnyddio arwyddion dwyieithog ar gyfer y Prosiect ac ar lwybrau ffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus yr effeithir arnynt ynghyd ar fesurau eraill sydd yn cael ei amlinellu yn rhan 7 or adroddiad.

## 6. Casgliadau:

6.1 Mae'r cynnig yn cynnwys nifer o elfennau datblygu oedd angen eu hystyried dan sawl polisi cynllunio a deddfwriaeth amgylcheddol arall. Ystyriwyd bod egwyddor prif agweddau'r datblygiad, sy'n cynnwys gosod ceblau tanddaearol o fewn safle presennol is-orsaf pentir ynghyd a gwaith cysylltiol yn dderbyniol ar ôl ystyried yr holl faterion cynllunio, gan gynnwys y polisïau a'r canllawiau lleol a chenedlaethol.

6.2 Mae'r Datganiad Amgylcheddol wedi asesu'r effaith ar yr amgylchedd a chasglwyd, gydag amodau cynllunio, y byddai modd lliniaru yn erbyn effeithiau'r datblygiad yn foddhaol, ac y gellir gwarchod nodweddion amgylcheddol.

6.3 Ystyriwyd bod yr effeithiau gweledol a thirwedd yn dderbyniol oherwydd bod y gwaith o fewn safle sydd wedi ei ddatblygu eisoes. Credir bod y datblygiad yn diogelu mwynderau eiddo preswyl o amgylch y safle yn foddhaol.

6.4 Bydd y datblygiad arfaethedig yn ymestyn ac yn gwella cysylltiadau trydan ar draws Gogledd Cymru. Mae'r buddion economaidd wedi'u cydnabod ac ni chanfuwyd unrhyw niwed i'r iaith Gymraeg.

6.5 Mae'r cynnig wedi arddangos na fydd y datblygiad yn achosi unrhyw gynnydd yn y risg i fywyd nac unrhyw risg arwyddocaol i eiddo. Yn ogystal, ystyrir y bydd y gwaith yn gwarchod materion treftadaeth ac archaeoleg.

6.6 O ystyried yr uchod ac o ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol, gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol ag ymgynghoreion statudol, ynghyd â thrigolion lleol a'r hanes cynllunio, credir bod y cynnig hwn yn dderbyniol ac yn unol â gofynion y polisïau perthnasol fel y'i nodir yn yr asesiad uchod.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatáu - amodau

1. 5 mlynedd
2. Yn unol â'r cynlluniau, hol argymhellion y dogfennau ac asesiadau, a'r Datganiad Amgylcheddol a gymeradwywyd
3. Amodau Gwarchod y Cyhoedd
4. Amodau Cefnffyrdd
5. Cydymffurfio â'r Datganiad Seilwaith Gwyrdd ynghyd a gwaith cynnal a chadw i'r dyfodol.
6. Sicrhau arwyddion dwyieithog gyda'r flaenoriaeth i'r Gymraeg.